CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y cyfarfod: **21/01/2025**

Teitl: **Cylch Caron**

Pwrpas yr adroddiad: **Cymeradwyo'r broses dendro ddiwygiedig**

Er: **Penderfyniad**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd. Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant

Cyflwyniad

Bydd prosiect Cylch Caron yn cwmpasu ystod o elfennau sy'n mynd i'r afael â materion Tai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd y cynllun yn darparu model gwledig integredig o ofal cymunedol ac yn cynnwys darpariaeth amgen ar gyfer Ysbyty Tregaron a Chartref Gofal Preswyl Bryntirion.

Mae hwn yn brosiect partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â Llywodraeth Cymru.

Tendr

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet (17.07.2024) i fwrw ymlaen â phroses dendro agored i nodi partner prosiect newydd, cynhaliwyd proses dendro rhwng 26/07/2024 a 20/09/2024. Ni arweiniodd y broses dendro at bartner ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, mae dau bartner posibl wedi mynegi diddordeb mewn cyflawni'r cynllun, gyda rhai amrywiadau i'r rhai a gynigir yn y tendr. Yn unol â'r Rheoliadau Caffael ac er mwyn ymchwilio'r amrywiadau hynny'n llawn i gyflawni Cynllun Cylch Caron yn llwyddiannus, cynigir yn awr cynnal ymarfer caffael Deialog Cystadleuol.

Mae ymarfer caffael Deialog Cystadleuol yn dechrau gyda galwad agored i bartïon â diddordeb ac mae'n cynnwys cam cymhwyso o feini prawf hanfodol y mae'n rhaid eu bodloni. Ar ôl y cam cychwynnol hwnnw mae'n bosibl trafod cynigion a gyflwynwyd gan y cynigwyr er mwyn llunio'r cynlluniau hynny i sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni. Efallai y bydd sawl rownd o drafodaethau cyn gwahodd cais terfynol.

Ar ôl cwblhau'r ddeialog gystadleuol bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar gyfer derbyn tendr.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau?

Mae AEI wedi ei agor a chaiff ei ddatblygu yn unol â datblygiad y cynllun.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor : Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad:
Cymeradwyo bod y Cyngor yn symud ymlaen â'r broses gaffael Deialog Cystadleuol ar gyfer Cynllun Cylch Caron yn lle'r tendr agored.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
Er mwyn hwyluso penderfyniad y Cyngor i fwrw ymlaen â phrosiect Cylch Caron.

Trosolwg a Chraffu:
Amherthnasol

Fframwaith Polisi:
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016.

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
I'w adolygu fel rhan o ddatblygiad y cynllun trwy'r Achos Busnes

Goblygiadau cyfreithiol:
Amherthnasol

Goblygiadau staffio:
I'w adolygu fel rhan o ddatblygiad y cynllun trwy'r Achos Busnes

Goblygiadau eiddo / asedau:
Fel yr amlinellwyd yn y Cytundeb Datblygu

Risg / Risgiau:
Diffyg diddordeb trwy'r broses dendro yn arwain at ddim partner yn cael ei nodi.

Pwerau Statudol:
Amherthnasol

Papurau Cefndir:
Amherthnasol

Atodiadau:
Amherthnasol

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal

Swyddog Adrodd:
Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Uniongyrchol

Dyddiad:
24/12/2024